NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Brigatinib ar gyfer trin canser yr ysgyfaint datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach ALK-positif ar ôl crizotinib

20 Mawrth 2019

Mae Brigatinib (Alunbrig) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â chanser yr ysgyfaint cinas lymffoma anaplastig (ALK)-positif datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach, sydd eisoes wedi cael triniaeth â crizotinib.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- ALK Positive Lung Cancer UK, 07975 623515
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3322-8



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.